Sut mae'r awdurdod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol am ein cydymffurfiad â safonau'r Gymraeg ac mae penaethiaid gwasanaeth yn rhoi eu gweithdrefnau mewnol eu hunain ar waith.

Cyn i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2016, ac ers hynny, rhoddwyd nifer o gamau ar waith i fodloni'r gofynion ac mae cynnydd yn barhaus. Gweler y tabl isod:

	Camau a gymerwyd	**Camau Gweithredu**	**Dyddiau**
1	Parhau i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg o oedd eisoes yn bodoli	• Annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wneud hynny • Rheolwyr i fod yn ymwybodol o sgiliau Cymraeg eu gweithwyr • Siaradwyr Cymraeg i wisgo cortynnau gwddf "Iaith Gwaith" a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg i wisgo bathodynnau dysgwr. • Cadw rhestr o aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar Fewnrwyd y Staff.	Parhaus
2	Ffôn	• Cyflwynwyd system ffôn gorfforaethol newydd, sy'n galluogi cyswllt cyntaf dwyieithog safonol wrth dderbyn galwadau i brif switsfwrdd y cyngor.	Ebrill 2016
3	Gwefan y cyngor	• Gwefan allanol i fod yn gwbl ddwyieithog	Mawrth 2016 ac yn barhaus
4	Cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg	• Hyrwyddo'r hyfforddiant 'Cymraeg yn y gwaith' ar gyfer staff i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg • Cwrs e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gael • Swyddog y Gymraeg, Menter Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn bresennol mewn digwyddiadau galw heibio i staff • Grŵp Cefnogi Staff ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg	Cwblhaodd 60 o weithwyr y cwrs sylfaenol 30 wythnos yn 2016-17 O leiaf unwaith y flwyddyn ac yn parhau Cynhaliwyd y grŵp rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Mawrth 2017 gyda pheth llwyddiant. Dulliau eraill o gefnogaeth yn cael eu hystyried.

5	Addysgu adrannau ac unigolion am y safonau	• Rhoddwyd cyfres o gyflwyniadau i gynrychiolwyr o holl feysydd gwaith yr awdurdod i helpu i annog ymagwedd gynhwysfawr a chyson at gydymffurfiad. • Cynigir sesiynau ymwybyddiaeth i aelodau etholedig. • Rhoddwyd blaenoriaeth gychwynnol i gyflwyno gwasanaethau gan mai hyn sydd fwyaf gweladwy i'r cyhoedd. • Nifer o ganllawiau a gwybodaeth ddefnyddiol i staff, e.e. arweiniad i gyfryngau cymdeithasol dwyieithog, rhestr o staff sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.	• Hyd at fis Mawrth 2016 • Gwaith addysgu'n parhau gyda rheolwyr ac aelodau staff unigol. • Diweddarwyd canllawiau defnyddiol ym mis Hydref 2017
6	Grŵp Staff sy'n Hyrwyddo'r Gymraeg	Rhaeadrir gwybodaeth ar draws yr awdurdod yn bennaf drwy'r grŵp hwn, gydag o leiaf un hyrwyddwr ym mhob maes gwasanaeth.	Ers y dyddiad cydymffurfio ac yn barhaus bob 2-3 mis.
7	Y Broses Asesu Effaith Cydraddoldeb	Mae proses AEC y cyngor wedi ehangu'r paramedrau a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010/Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i gynnwys Safonau'r Gymraeg a'n gofynion i'w bodloni.	Parhaus Mae angen Sgriniad AEC a/neu adroddiad AEC llawn am brif benderfyniadau'r awdurdod ac mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r weithdrefn adrodd corfforaethol.
8	Adnoddau Dynol	• Cyfieithwyd holl bolisïau AD mewn perthynas â staff i'r Gymraeg. • Gofynnir i bob aelod o staff newydd a yw'n siarad Cymraeg a chofnodir yr wybodaeth hon. • Anogir gweithwyr i nodi lefel eu sgiliau Cymraeg ar system AD yr awdurdod (Oracle).	Cyfieithwyd holl bolisïau AD mewn perthynas â staff i'r Gymraeg. Yn barhaus ers 2007. Parhaus
9	Cyfieithu	Uned Gyfieithu Fewnol Y nod yw bod yr holl ohebiaeth â'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg (gwe-dudalennau, llythyrau, e-byst, ffôn, cyfryngau cymdeithasol, wyneb i wyneb) ac mae'r uned yn rhan allweddol o gyflawni hyn.	Gwneir cynnydd parhaus. Cyflogwyd cyfieithwyr ychwanegol a datblygwyd arweiniad i helpu pobl i wneud ceisiadau cyfieithu.
10	Gwasanaethau	Yn ogystal â'r Safonau, pennir llawer o waith Adran y Gwasanaethau	Parhaus

	Cymdeithasol	Cymdeithasol gan *Mwy Na Geiriau/More than Just Words* - fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru.	